

**Cynhadledd Genedlaethol Ehangu
Mynediad CCAUC Cyfeiriad Ehangu
Mynediad yn y Dyfodol: Pwrpas, Polisi
ac Arfer. 2 Rhagfyr 2014**

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales



Roedd y prif bwyntiau yn araith y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cynnwys:

1. Pwysleisio bod swyddi a thwf, cydraddoldeb ac ecwiti, a model cyllido teg a chynaliadwy yn dal i fod yn flaenoriaethau i Addysg Uwch (AU);
2. Adnabod pwysigrwydd AU i bawb a all elwa arno, waeth beth yw eu cefndir;
3. Pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau cryfach gydag ysgolion er mwyn gwasanaethu buddiannau dysgwyr a chymunedau'n well a'r angen am raglen weithredu gydlynol i godi uchelgais dysgwyr a gyrru gwelliannau ym mherfformiad myfyrwyr difreintiedig trwy berthnasau newydd wedi eu cynllunio a'u strwythuro rhwng ysgolion, colegau a phrifysgolion yng Nghymru i sicrhau bod dysgwyr yn pontio i addysg uwch, drwy addysg uwch a thu hwnt iddi mewn ffordd effeithiol;
4. Cadarnhau bod Ehangu Mynediad yn agenda hirdymor ar gyfer pob oedran, yn cyfrannu at fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amddifadu economaidd a chymdeithasol a gyrru economi Cymru yn ei blaen;
5. Cadarnhau ymrwymiad hirdymor at gefnogi a hyrwyddo dysgu rhan amser a darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
6. Cydnabod bod dangosyddion perfformiad wedi dangos bod gan Gymru hanes o lwyddiant yn Ehangu Mynediad, ond gallai syniadau newydd wella ymgysylltiad â dysgwyr difreintiedig; ymgorffori mentrau fel Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn y tirlun addysgol; ac ehangu gwaith SAUau gyda SABau, ysgolion, dysgu teuluol a dysgu sy'n pontio'r cenedlaethau, oedolion sy'n dychwelyd at addysg a chymunedau;
7. Canmol pob SAU yng Nghymru am gyflawni marc ansawdd Buttle UK ar gyfer rhai sy'n gadael gofal ac annog SAUau i wneud mwy i'w helpu i gyflawni eu potensial;
8. Cydnabod bod cadw yr un mor bwysig â recriwtio, gyda gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd yn sail i ddysgu er mwyn llywio dewis dysgwyr;
9. Cydnabod enghreifftiau o arfer effeithiol y dylid ei ddatblygu ymhellach, gan gynnwys: Gwaith Partneriaeth Ymgynraedd yn Ehangach First Campus gyda Her Ysgolion Cymru; y model prifysgol deuol yn ne ddwyrain Cymru; Athrofa

Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd; partneriaeth Prifysgol Bangor â Choleg Llandrillo; a phartneriaethau Ynys Ynni;

10. Nodi bod y modelau traddodiadol o ddapariaeth campws ar fin newid, gydag angen i brifysgolion ymateb i arloesedd technolegol, cynyddu disgwyliadau myfyrwyr, diwygio strwythurol a newidiadau cyllido. Roedd yr heriau hyn yn cynnig cyfleoedd i wlad fechan;
11. Cydnabod bod cyllidebau'n hynod o dynn a bod angen sail tystiolaeth gadarn i lywio buddsoddiadau cyhoeddus ac ymyriadau polisi;
12. Cwestiynu a oedd mesurau Ehangu Mynediad presennol sy'n seiliedig ar ddaearyddiaeth yn dal i fod yn briodol;
13. Ystyried y gellid gwneud mwy i wella ymgysylltiad prifysgolion gydag ysgolion gan fod rhy ychydig o blant o gefndiroedd difreintiedig yn gweld prifysgol fel cam naturiol, ac nad ydynt yn mynd ymlaen i brifysgol. Gallai partneriaethau AU/ysgolion greu dulliau gweithredu Ehangu Mynediad wedi eu cynllunio a'u strwythuro i gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion a rhieni, gyda phrifysgolion yn chwarae mwy o ran yn natblygiad y cynnig disgybl a darparu rhyngweithiadau wedi eu cynllunio i ddisgyblion yn dechrau ym mlynnyddoedd 9/10 a sicrhau bod plant ysgol gynradd yn deall AU a bod y disgyblion mwyaf difreintiedig yn anelu at AU;
14. Amlinellu'r angen am berthynas fwy cydlynol a chefnogol rhwng y Llywodraeth a phrifysgolion Cymru gyda gwaith prifysgolion yn cael ei wreiddio yn eu cymunedau; chwarae mwy o ran ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol eu cymuned; a datblygu ymdeimlad nodweddiadol o gymuned AU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i roi sylw i heriau sy'n cael eu rhannu. Roedd Is-gangellorion wedi ymateb yn gadarnhaol i her y Llywodraeth i greu partneriaeth gymdeithasol.
15. Ystyried na wnaeth AU Cymru adnabod ei botensial i newid Cymru yfory mewn ffordd radical, trawsnewid yr economi a chwarae un o'r prif rannau yn y Gymru fodern.
16. Ymrwymo Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda'r sector mewn partneriaeth go iawn i gyflawni uchelgeisiau i AU a dysgwyr yng Nghymru.